

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 11 MEDI 2018

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Morgan, Murphy,
Phillips, Taylor a/ac Singh

Aelodau Cyfetholedig: Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng
Nghymru), Rebecca Crump (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)
a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Patricia Arlotte.
Croesawodd y Cadeirydd Chloe Burrage, cynrychiolydd y Cyngor Ieuencid, i'r
cyfarfod a'i gwahodd i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol ac eistedd gydag Aelodau, er
mwyn iddi allu cymryd rhan yn y cyfarfod.

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

22 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin a 10 Gorffennaf
2018 a chofnodion y Cydbwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a Phlant a
Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan y
Cadeirydd.

23 : ADRODDIAD DROS DRO AR BERFFORMIAD YSGOLION CAERDYDD 2017

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod
Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a
Dysgu Gydol Oes), Suzanne Scarlet a Natalie Stork (Perfformiad a Rheoli
Gwybodaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Sarah Merry wneud datganiad lle nododd y
materion sy'n parhau o ran canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond
pwysleisiodd mai carfan fechan iawn o ddisgyblion sydd; mae pryderon tebyg ar
gyfer disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am
ddim fel y bu mewn blynyddoedd blaenorol, ond roedd hwn yn fater cenedlaethol.
Roedd Caerdydd yn perfformio'n dda o gymharu â rhai rhannau o Gymru ond roedd
lle i wella ac roedd y canlyniadau'n gadarnhaol ar y cyfan.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y byddai darlun mwy diffiniol ar gael ym mis Ionawr.
Nodwyd bod y system hunanwella a sefydlwyd drwy'r consortiwm yn helpu
perfformiad yn gyffredinol a bod angen dathlu hyn gan barhau i gydnabod bod mwy
i'w wneud. Ychwanegodd fod y darlun mewn ysgolion cynradd yn cryfhau ac yn gryf
ond bod dal angen canolbwytio ar 'bob dysgwr' yn enwedig y bobl ifanc sydd wedi
symud o gwmpas yn y system, sy'n profi ffactorau cymdeithasol y tu allan i'r ysgol

neu sydd wedi'u haddysgu gartref ac ati. Roedd yn cydnabod bod yna leiafrif o ddisgyblion nad yw'r system yn gweithio iddynt ac nad yw'r rhai oddi ar y gofrestr yn perfformio'n dda. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad perfformiad blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y rhesymau pam roedd plant yn cael eu haddysgu y tu allan i'r lleoliad prif ffrwd. Cynghorodd swyddogion fod amrywiaeth o resymau gan gynnwys anghenion addysgol arbennig, Dysgu yn y Cartref Dewisol, y rhai nad ydynt yn gallu llwyddo mewn lleoliadau prif ffrwd oherwydd materion iechyd neu gymdeithasol a'r disgyblion hynny nad ydynt yn gweddu i leoliad y cwricwlwm ac sydd angen cynnig mwy galwedigaethol.

Trafododd yr Aelodau beth sydd angen ei wneud i atal disgyblion rhag gadael lleoliadau prif ffrwd a nododd swyddogion fod angen cael her a chymorth i ysgolion sydd â phobl ifanc mewn perygl o adael, ond bod angen dulliau adferol a chyfyngu hefyd, mwy o dryloywder a bywiogrwydd yn y mecanwaith atgyfeirio a golwg manylach ar y prosesau i sicrhau nad oes lleiafrif o ysgolion yn cael yr holl bobl ifanc sy'n anodd eu rheoli. Roedd pawb yn cytuno bod rôl i'r Llywodraethwyr yn hyn hefyd.

Nododd yr Aelodau fod 39.5% o ddisgyblion Caerdydd yn symud ymlaen i astudio Lefel A ac yn gofyn sut mae hyn yn cymharu ag awdurdodau eraill. Dywedodd swyddogion fod y gyfradd genedlaethol yn 40% felly roedd Caerdydd yn unol â hynny.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd gweddill y garfan yn ei wneud a chynghorodd swyddogion eu bod yn edrych ar gyrchfannau yn yr Hydref ac yna'n categoreiddio'r wybodaeth, ond yn gyffredinol roedd amrywiaeth o gyrchfannau fel coleg a hyfforddiant. Cytunodd swyddogion i ddod â'r wybodaeth hon yn ôl yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cyfeiriodd Aelodau at blant sy'n symud ysgol a nodwyd y gallai rhai plant fod yn Blant sy'n Derbyn Gofal a phlant sy'n symud o fewn gofal maeth neu symud ardal, a gofynnwyd am ddadansoddiad o'r ffigurau hyn. Cytunodd swyddogion i ddod â'r wybodaeth hon yn ôl i'r Pwyllgor.

Nododd yr Aelodau'r dadansoddiad o rywedd yn y ffigurau perfformiad ond gofynnwyd a oedd unrhyw ddadansoddiad demograffig arall, fel ethnigrwydd, ar gael. Eglurodd swyddogion fod y wybodaeth honno ganddynt ac y byddai yn yr Adroddiad Blynyddol ym mis Ionawr. Roedd dadansoddiadau yn ôl grŵp ethnig, SIY ac ati ac roedd pob ysgol wedi'i phroffilio yn ôl nodweddion, ac yna roedd yr ymgynghorwyr her yn y consortiwm yn trafod unrhyw faterion gyda'r ysgolion unigol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ddisgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol a gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch pwy sy'n cael mynediad i ddarparwyr a thiwtora cartref, a oedd diffyg darparwyr ac a oedd y capasiti'n ddigonol. Eglurodd swyddogion nad oeddent yn hapus bod gormod o bobl ifanc yn methu â chyflawni'r canlyniadau craidd. Roeddent o'r farn y gellid lleihau'r amrywiaeth o ddarparwyr ac y gellid cael dull mwy pendant o borthgadw o ran pwy sy'n cael eu defnyddio a mwy o ddeialog ynghylch sut y maent yn gweithio gyda'r Cyngor. Roedd aelodau o'r farn y dylid cael mwy o onestrwydd a ffocws o amgylch y rhai sydd angen defnyddio'r gwasanaeth.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

24 : BRIFF AR GYNIGION A CHWRICWLWM A SGILIAU CAERDYDD 2020 - 2025.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes), Suzanne Scarlet a Natalie Stork (Perfformiad a Rheoli Gwybodaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i wneud datganiad lle'r amlinellodd ein bod yn agos at 2020 ac roedd angen edrych ymlaen at ddyheadau a rhannu nodau a strategaethau i'w cyflawni. Roedd hefyd angen edrych ar sut olwg ddylai fod ar addysg yng Nghymru ymhen degawd. Esboniodd mai dogfen bartneriaeth yw hon lle mae'r Cyngor yn chwarae rôl arwain, mae addysg yn dda i'r cyhoedd ac fel yr amlinellir yn yr Uchelgais Prifddinas, mae cymaint yn dibynnu ar system addysg dda. Ychwanegodd fod angen i Gymru gael cylchrediad credadwy o ran addysg.

Wrth gyfeirio at y gynhadledd, nodwyd na ddylid cael athrawon yn unig, ond y dylid cael pobl o brifysgolion a busnesau blaengar i gael dealltwriaeth fwy hyddysg o faterion a fydd yn cael eu hwynebu yn y dyfodol. Eglurodd y swyddogion y fformat ac amserau ar gyfer y gynhadledd a dywedwyd bod gwahoddiadau i gael eu hanfon allan yn fuan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd unrhyw rieni yn bresennol yn y gynhadledd ac fe'u cynghorwyd y byddai llywodraethwyr yn cael eu gwahodd a'r cyrff llywodraethu oedd yn penderfynu pa lywodraethwyr i'w mynychu, yn anffodus, roedd her ynghylch y niferoedd a oedd yn gallu mynychu'r gynhadledd. Cytunodd y swyddogion fod angen i rieni ymgysylltu'n llawnach yn gyffredinol.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid sicrhau bod cynrychiolaeth dda o'r elfen broffesiynol a busnes yng Nghaerdydd. Dywedodd swyddogion fod y Cyngor, fel rhan o Addewid Caerdydd, wedi ymrwymo i ddod â phartneriaid ynghyd i gysylltu twf yn yr economi ac addysg; roedd gwahoddiadau'n cael eu hanfon drwy Ddatblygu Economaidd ac roedd llawer o fusnesau wedi ymrwymo i fod yn bresennol, a'r gobaith oedd y byddai chwe sector twf gwahanol yn cael eu cynrychioli.

Nododd yr Aelodau fod ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig yn cael eu cynrychioli a gofynnodd a oedd ysgolion ffydd eraill hefyd yn cael cynrychiolaeth. Eglurodd swyddogion fod yr esgobaeth briodol wedi bod yn rhan o'r Confensiwn ond nad oes yr un cysylltiadau strwythurol ag ysgolion ffydd eraill. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod ganddynt gynrychiolaeth dda ar bwyllgor CYSAG sy'n ymdrin â phob grŵp crefyddol ac y byddai CYSAG Caerdydd a Chymru yn bwydo i mewn i ochr y cwricwlwm.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

25 : GWYBODAETH AM REOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU PLANT – ADRODDIAD CHWARTER 1

Croesawodd y Cadeirydd Claire Marchant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Irfan Alam Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Berfformiad Gwasanaethau Plant yn Chwarter 1 ac yna gwahoddod y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau faint o leoedd fyddai ar gael yn y pum cartref newydd i blant. Cyngorodd swyddogion y byddai tua 20 o leoedd ar gael i blant sydd ar hyn o bryd mewn lleoliadau preswyl, rhai ohonynt y tu allan i'r Sir. Nodwyd na fyddai mwy na phum gwely i bob cartref. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr eu bod yn gweithio ar strategaeth gomisiynu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar y cyd i edrych ar y ddarpariaeth yn y dyfodol, gan gynnwys mathau o ddarpariaeth, tymor byr/argyfwng a darpariaeth gam-i-lawr tuag at ofal maeth.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr asesiadau cymesur a gofyn a fyddai'n werth ystyried amserlen lai cyfyngol ar gyfer y grŵp hwn o staff. Dywedodd swyddogion eu bod wedi rhoi cynnig ar wahanol ddewisiadau o ran rheoli'r system ddyletswydd, ond oherwydd nifer yr atgyfeiriadau, mae angen nifer benodol o staff ar unrhyw un adeg; oni bai bod llai o alw ni fyddai'r pwysau'n newid, bydd y ddarpariaeth cymorth cynnar yn helpu wrth symud ymlaen ond ni fydd yn lleihau'r pwysau yn syth.

Gofynnodd yr Aelodau am swyddi gwag ac os cynhaliwyd cyfweliadau ymadael i ganfod pam yr oedd pobl yn gadael. Dywedodd swyddogion fod cyfweliadau ymadael yn cael eu cynnal a bod y rhan fwyaf o bobl yn gadael gan fod pwysau derbyn ac asesu ac amddiffyn plant yn eu blino'n lân. Nodwyd bod llawer o bobl yn symud i wahanol rannau o'r gwasanaeth lle nad yw'r galw mor uchel. Gofynnodd yr Aelodau a oedd gwahaniaeth yn y graddfeydd cyflog ar gyfer y rheini a oedd yn y rolau pwysedd uwch a dywedwyd nad oedd gwahaniaeth.

Bu'r Aelodau'n trafod Asiantaethau Maethu Annibynnol a nodwyd nad yw'r gofalwyr maeth yn cael mwy o dâl na'r rhai sy'n gweithio gyda'r Cyngor, ond bod angen mwy o anogaeth i sicrhau bod gofalwyr maeth yn gweithio gyda'r cyngor a bod angen i'r Cyngor fod mor effeithiol fel busnes ag yw'r Asiantaethau Maethu Annibynnol. Nododd yr Aelodau fod gan Gaerdydd enw gwael yn y gorffennol am faethu a bod yr Asiantaethau Maethu Annibynnol yn manteisio ar hynny ac yn targedu Caerdydd. Nododd yr Aelodau fod dros 20 o ddarparwyr wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Eglurodd swyddogion fodel yr Alban lle nad yw maethu wedi bod yn ddarpariaeth elw ers 15 mlynedd, felly nid oes unrhyw sefydliadau sy'n cael gweithredu a gwneud elw, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych ar hyn ar hyn o bryd. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai gael cynnig ar draws y pleidiau i gefnogi hyn.

Gofynnodd Aelodau am nifer yr atgyfeiriadau Heddlu ac a oedd hyn o gymorth neu a oedd angen mwy o hyfforddiant. Eglurodd swyddogion ei bod yn anodd gan nad oes angen i rai atgyfeiriadau ddod ond y gallent yn y dyfodol a hefyd fod ond angen i rai

cael eu cofnodi. Yr hyn yr oedd ei angen oedd system gydgysylltiedig y gall y Cyngor a'r Heddlu ei defnyddio, ond rhywbeth ar gyfer y dyfodol fyddai hynny.

Trafododd yr Aelodau'r farchnad faethu ac esboniodd swyddogion fod angen marchnata wedi'i dargedu, roedd angen i'r cynnig fod yn glir, roedd angen model busnes ac roedd y tîm yn ymrwymedig i ymateb yn gyflym; roedd yn bwysig bod modd rheoli'r llog pe bai'n cynyddu.

Gofynnodd yr Aelodau pa waith oedd yn cael ei wneud gyda phartneriaid eraill i yrru cyfeiriadau deallus trwy gyfrwng Profiadau Plentyndod Negyddol. Dywedodd swyddogion y gall Profiadau Plentyndod Negyddol ychwanegu at atgyfeiriadau wrth i'r Heddlu flaenoriaethu Profiadau Plentyndod Negyddol, nodwyd y byddai Cymorth Cynnar, gwydnwch ac ymyrraeth yn helpu ond ar hyn o bryd does unman arall i fynd.

Gofynnodd yr Aelodau pa gymorth oedd yn cael ei gynnig i rieni mabwysiadol. Dywedodd swyddogion fod trefniant ar waith gyda rhaglen mabwysiadu gydweithredol Bro Morgannwg, Merthyr a Rhondda Cynon Taf, a swyddogaeth benodol ar gyfer cymorth ôl-fabwysiadu. Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn y gallai'r dadansoddiad o drefniadau mabwysiadu fod yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol ac bod angen buddsoddi mewn cymorth mabwysiadu drwy gyfnodau pontio mewn bywyd.

Nododd Aelodau fod rhai pobl yn cael eu helpu i beidio â maethu gan fod y cyfweiliad mor ddwys, esboniodd y swyddogion fod angen i Dderbyn ac Asesu fod yn gadarn gan fod angen i bobl wybod beth sy'n cael ei gynnwys.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai yna gap ar y pris mewn perthynas â phartneriaethau â Bro Morgannwg, ac fe'u hysbyswyd bod y ffioedd yn cael eu hystyried yn rhanbarthol er mwyn cysoni'r ffioedd.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar lechyd Meddwl a Lles ar gyfer pobl ifanc yn gofyn a fyddai'r Gwasanaethau Plant yn gallu cynnig rhywun i eistedd ar y grŵp. Cynghorodd swyddogion y byddai.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

26 : RHAGLEN WAITH

Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar y rhaglen waith fel y'i nodir yn yr adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar lechyd Meddwl a Lles Plant. Ceisiwyd gwirfoddolwyr ar gyfer y grŵp hwnnw a chytunwyd mai'r Cynghorydd Mike Phillips fyddai'n Cadeirio'r grŵp, a'r aelodau gwirfoddol bydd y Cynghorwyr Murphy, Taylor a'r aelodau cyfetholedig bydd Rebecca Crump, Karen Dell'Armi a Patricia Arlotte. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Cynghorydd Lee Bridgeman yn dyst arbenigol ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y rhaglen waith.

27 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

28 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddydd Mawrth 9 Hydref 2018 am 4.30 pm.

29 : EITEMAU BRYG (OS OES RHAI)

Ni ddaeth dim i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm